

| | |
|----------------------------|--|
| CYFARFOD: | PWYLLGOR IAITH |
| DYDDIAD: | 4 GORFFENNAF 2017 |
| TEITL: | Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith |
| AWDUR: | MAIR ROWLANDS DIRPRWY ARWEINYDD |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i sylw'r Aelodau |

1 CEFNDIR

1.1 Cafodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chael cydsyniad brenhinol yn Chwefror 2011. Roedd y Mesur yn gwneud nifer o newidiadau arwyddocaol o safbwynt cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys:

- rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, sy'n golygu na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.
- sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg er mwyn hybu'r Gymraeg a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio.
- creu trefn o gyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith sydd yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg.
- sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg er mwyn gwrandao ar achosion ar benderfyniadau'r Comisiynydd yn ymwneud â safonau'r Gymraeg.
- diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a dod a Chynlluniau Iaith i ben

1.2 Yn unol a'r drefn a osodwyd gan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, derbyniwyd Hysbysiad Cydymffurfio y Safonau, oedd yn cynnwys yr holl safonau y mae disgwyl i Gyngor Gwynedd gydymffurfio â nhw ar 30 Medi 2015.

1.3 Roedd 151 o Safonau yn yr Hysbysiad Cydymffurfio, wedi eu rhannu i bump dosbarth:

1. Cyflenwi Gwasanaethau
2. Llundio Polisi
3. Gweithredu
4. Cadw Cofnodion
5. Hybu

1.4 Daeth y Safonau i gyd i rym ar 30 Mawrth 2016, ac eithrio y 4 safon oedd yn ymwneud a hybu, oedd yn weithredol o 30 Mawrth 2017.

- 1.5 Yn sgil ymrwymiad hanesyddol y Cyngor i'r iaith Gymraeg, roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r safonau a osodwyd arno trwy weithrediad ei Gynllun Iaith, ac yn wir, roedd y Cynllun hwn yn mynd ymhellach na safonau'r Gymraeg mewn sawl maes.
- 1.6 Ystyriwyd na ddylid gwanhau ymrwymiad presennol y Cyngor tuag at y Gymraeg trwy gyfyngu'r ymrwymiad at gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn unig, ac o ganlyniad, datblygwyd Polisi Iaith o'r newydd. Mae'r Polisi hwnnw yn weithredol ers Ebrill 2016.
- 1.7 Fel rhan o'r Safonau, mae angen i'r Cyngor lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. Cyflwynir yn atodol felly, Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar gyfer y cyfnod 2015/16.

2. ARGYMHELLION

- 2.1 Gofynnir i'r aelodau:
- drafod a derbyn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol